



Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron Mis Mawrth / Tregaron Town Council March Meeting
Nos Lun / Monday 17.03.2025

7.00yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

COFNODION CYFARFOD MIS MAWRTH / MARCH MEETING MINUTES

1.	<p>CROESO / WELCOME Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. <i>The Chair welcomed everyone to the meeting.</i></p> <p>PRESENNOL / <i>PRESENT</i>: Cyng/Cllr Catherine Hughes (Cadeirydd / <i>Chair</i>), Arwel Jones, Rhian Jones, Gwion James, Rhian Hughes, Dafydd Richards & Meirian Morgan.</p> <p>Ar lein / Online – Cyng / Cllr Owain Pugh</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p> <p>Ymunodd y Cyng Ifan Davies â'r cyfarfod yn hwyr / <i>Cllr Ifan Davies joined the meeting late</i></p>	
2.	<p>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES Cyng / Cllr. Sian Jones, Dewi Evans & Jo-Alice Davies</p>	
3.	<p>SIARADWR / SPEAKER RAY Ceredigion - Ymunodd Gill & Gemma â'r cyfarfod i rannu gwybodaeth am brosiect newydd wedi'i ariannu a fydd yn cael ei gynnal yn Nhregaron yn ystod Gwyliau Ysgol yn y Parc Chwarae. Pawb yn cytuno iddo ddiwydd yn y parc. <i>RAY Ceredigion - Gill & Gemma joined the meeting to share information on a new funded project that will be held at Tregaron during School Holidays at the Playing Park. All in agreement for it to take place at the park.</i></p>	
4.	<p>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS Estynnwyd cydymdeimlad â'r Cyng. Owain Pugh a'r teulu yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gymerodd ran yn Pared Gŵyl Dewi. <i>Condolences were extended to Cllr. Owain Pugh and the family in their recent bereavement.</i> <i>The Chair thanked everyone who took part in the St.David's Day Parade.</i></p>	
5.	<p>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT Ni allai PCSO John Evans fynychu'r cyfarfod a darllenodd y Clerc e-bost a anfonwyd gyda gwybodaeth. <i>PCSO John Evans could not attend the meeting the Clerk read out an email sent with information.</i></p>	
6.	<p>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</p>	

	Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i>	
7.	CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 17/02/2025 Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir. <i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i> Cynnig/ <i>Proposed</i> : Cyng/Cllr Arwel Jones Eilio/ <i>Seconder</i> : Cyng/Cllr Rhian Jones	
8.	MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES <ul style="list-style-type: none"> • 13.1 – Cyfarfod gyda'r Cyngor Sir ar 20/03/25 / <i>Meeting with the County Council on 20/03/25</i> • 13.8 – Hawliad Cynnal y Cardi wedi cael ei gymerdarwyo / <i>Cynnal y Cardi claim has been approved</i> • 16.9 – Wedi cysylltu a'r Cyngor Sir ond heb gael ymateb. Wedi hela ebost arall hefyd yn y dyddiau diwethaf / <i>Have contacted the County Council but have not received a response. Have sent another email too in the last few days.</i> • 16.10 – Clerc wedi siarad â E.Evans am symud y pot blodau – hapus i neud / <i>Clerk has spoken to E.Evans about moving the flower pot - happy to do so.</i> 	
9.	CYNGOR SIR CERDIGION COUNTY COUNCIL <p>a. Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC – Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • 24/02/2025 – Cau Ffordd Ar Frys/<i>Emergency Road Closure</i>: B4343 Tregaron • 26/02/2025 - FW: Bwletin Mis Chwefror 2025 Cynnal y Cardi 2025 <i>February Bulletin</i> • 28/02/2025 - Bwletin Costau Byw Ceredigion: Iechyd a Lles <i>Ceredigion Cost of Living Bulletin: Health and Wellbeing</i> • 28/02/2025 - Cau Ffordd Ar Frys/<i>Emergency Road Closure</i>: B4343 Cellan, Llanbedr Pont Steffan/Lampeter • 03/03/2025 - Cau Ffordd Ar Frys/<i>Emergency Road Closure</i>: B4343 Cellan, Llanbedr Pont Steffan/Lampeter - wedi'i ganslo/<i>cancelled</i> • 04/03/2025 - Cau Ffordd Dros Dro/<i>Temporary Road Closure</i>: U1516 Llanddewi Brefi, Tregaron • 05/03/2025 - Estyniad i Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Drafft – Clerc wedi ymateb / <i>Extension to Consultation on Draft Supplementary Planning Guidance – Clerk has responded</i> <p>b. Diweddariad gan yr Aelod Lleol / <i>Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies –</i> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	Clerc / Clerk
10.	CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS <p>a) <u>Balans y Banc / Bank Balance</u> –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrif Busnes Cyfredol / <i>Business Current</i> – £7543.76 • Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve</i> – £14,092.17 • Cyfrif Busnes Cyfredol / <i>Business Current (Cadeirydd / Chairman)</i> – £1925.26 • Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve (Gratuity)</i> – £782.29 	

	<p>b) <u>Taliadau mis Ionawr / January payments –</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i> £303.50 • Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i> £336.00 • HMRC £160.00 • Anrhegaron £15.00 • Smith of Derby £393.60 • One Voice Wales £257.00 • CCC – Golau Stryd / <i>Street Lights</i> £993.28 • Neuadd Goffa Tregaron Memorial Hall £90.42 • G.Evans (Torri porfa Parc/Park Grass Cutting) £315.00 <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Dafydd Richards Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Arwel Jones</p> <p>c) Incwm / <i>Income –</i> Hawliad Cynnal y Cardi <i>Claim 4</i> £13,729.23</p> <p>d) Cyflogau 25/26 <i>Salaries –</i> Penderfynwyd gofyn i H.Bulman barhau i wneud y cyflogau am y flwyddyn ariannol nesaf. <i>It was decided to ask H.Bulman to continue to do the payroll for the next financial year.</i> Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Gwion James Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Meirian Morgan</p> <p>e) Archwiliad Cymru / <i>Audit Wales</i> Mae archwiliadau cyfrifon dros CYNGOR TREF TREGARON ar gyfer y blynyddoedd sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2024 wedi'u cwblhau. Barn archwilio: Cymwys – mae Adroddiad a barn archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ar wefan y Cyngor Tref - https://cyngor-tregaron-council.org.uk/wp-content/uploads/2025/03/Tregaron-CC-2023-24-2.pdf <i>The audit of accounts for TREGARON TOWN COUNCIL for the years ended 31 March 2024 has been concluded.</i> <i>Audit opinion: Qualified - Auditor General's report and audit opinion can be found on the Town Council website - https://cyngor-tregaron-council.org.uk/wp-content/uploads/2025/03/Tregaron-CC-2023-24-2.pdf</i></p>	Clerc / Clerk
11.	<p>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p> <p>Mae angen gwneud y canlynol -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Stryd y Capel, Heol Pontrhydefendigaid. • Glanhau strydoedd eraill yn eu tro. <p><i>The following needs to be done –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydefendigaid Road.</i> • <i>Other streets to be cleaned in rotation.</i> 	Clerc / Clerk

<p>12.</p>	<p>TENDR / TENDER <u>Tendr Torri Porfa / Grass Cutting tender</u> Trafodwyd, derbyniwyd a chytunwyd gan bawb y canlynol –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tendr Torri Porfa Parc Chwarae – Derbyniwyd 1 tendr ar gyfer torri gwair y parc chwarae. Cytunwyd i D Benjamin i dorri'r Parc Chwarae gan fynd a'r porfa oddi yno. • Tendr Torri Porfa Llwybr Doldre, y 5 arwydd, yr ymylion ar draws y dref a chae y parc – Derbyniwyd 1 dendr ar gyfer torri gwair yr uchod. Cytunwyd i D Benjamin i dorri yr uchod gan fynd a'r porfa oddi yno. • Yr uchod i'w wneud rhwng Ebrill a Hydref. Amylder y torri i'w drafod. <p><i>The following was discussed, accepted and agreed by all –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Playing Park Grass Cutting Tender –1 tender was received for mowing the playing park. It was agreed that D.Benjamin was to cut the Playing Park and remove the grass.</i> • <i>Grass Cutting Tender – Doldre path, the 5 signs, the verges across the town and the park field – 1 tender was received for mowing the above. It was agreed that D Benjamin was to cut the above and remove the grass.</i> • <i>The above to be done between April and October. The frequency of the cuts to be discussed.</i> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Dafydd Richards Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Arwel Jones</p> <p><u>Tendr Blodau / Flowers tender</u> Trafodwyd, derbyniwyd a chytunwyd gan bawb y canlynol –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyniwyd 2 tendr ar gyfer y blodau – Cytunwyd i Robert's Garden Centre i edrych ar ôl y blodau am 2025. <p><i>The following was discussed, accepted and agreed by all –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>2 tenders were received for the flowers. It was agreed that Robert's Garden Centre was to look after the flowers for 2025.</i> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Gwion James Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhian Jones</p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>13.</p>	<p>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS <u>Is-bwyllgor Parc a Blodau / Park & Flowers Sub Committee</u></p> <p>a. Parc / Park</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gwiriadau Iechyd a Diogelwch y Parc i barhau bob pythefnos - Cyng. Rhian Jones i gynnal y gwiriadau yn Mawrth/Ebrill. Diolchwyd i Cyng Jo-Alice Davies am wneud mis diwethaf. <i>Fortnightly Weekly Health & Safety checks of the Park to continue – Cllr. Rhian Jones to carry out the checks for March/April. Thanks was extended to Cllr Jo-Alice Davies for doing last month.</i> 	<p>Cyng / Cllr Rhian Jones</p>
<p>14.</p>	<p>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
<p>15.</p>	<p>PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS Prif flaenoriaethau'r Cyngor Tref yw / <i>The Town Council's main priorities are -</i></p>	

- 1) Llwybr Ystwyth / *Ystwyth Trail*
- 2) Cae pob tywydd & Trac Rhedeg / *All weather pitch & Running Track*
- 3) Gardd Gymunedol / *Community Garden*
- 4) Prosiect Peilot Cau Sgwâr / *Square Closure Pilot project*

Prif flaenoriaeth y Cyngor Tref am 2024/2025 yw prosiect Llwybr Ystwyth. Cyng Arwel Jones a Dewi Evans i symud y prosiect ymlaen ac i hysbysu'r Cyngor Tref am unrhyw ddatblygiadau.

The Town Council's main priority for 2024/2025 is the Ystwyth Trail project. Cllrs. Arwel Jones & Dewi Evans to move the project forward and to keep the Town Council informed of any developments.

Clerc wedi drafftio Cynllun Prosiectau'r Dyfodol – Cynghorwyr i gymryd cyfrifoldeb am un prosiect ac arwain –

Clerk has drafted a Future Projects Plan – Councillors to take responsibility for one project and lead –

	Prosiect / <i>Project</i>	Pwy / <i>Who</i>	Diweddariad / <i>Update</i>
1.	Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones, & Dewi Evans	Ar waith <i>Ongoing</i>
2.	Gwefan i'r dref a'r Bwrdd Digidol / <i>Town Website & Digital Board</i>	Cyng/Cllr Meirian Morgan & Arwel Jones Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
3.	Ffynnon Garon	Cyng/Cllr Rhian Jones & D. Roberts	Ar waith <i>Ongoing</i>
4.	Llyfryn Llwybrau Tregaron / <i>Tregaron Trails booklet</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
5.	Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i>	Cyng/Cllr Rhian Hughes & Arwel Jones	Aros am y brydles gan CSC Waiting for the lease from CCC Ffes 2 Ar waith – yn y gwanwyn Phase 2 Ongoing – in the spring

1. Llwybr Ystwyth / *Ystwyth Trail*

- Mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor Tref ac mae angen symud ymlaen. Byddai o fudd mawr i'r dref pe gallai'r prosiect hwn symud ymlaen. Nid yw CSC yn gwneud pryniannau gorfodol. Cyng Arwel Jones a Dewi Evans wedi cwrdd â CNC a CSC i drafod ymhellach. Mae'r ddau asiantaeth yn gefnogol ond bydd yn cymryd amser i'w symud ymlaen.

Cyfarfod wedi ei drefnu diwedd Mis Mawrth gyda CSC.

This needs to be a priority for the Town Council and we need to move it forward. It would be of great benefit to the town if this project could move forward. CCC don't do compulsory purchases. Cllr Arwel Jones and Dewi Evans have met with NRW to discuss further and CCC. Both agencies on board but it will take time to move it forward.

Meeting arranged for end of March with CCC.

Cyng/Cllr
Arwel
Jones &
Dewi
Evans

	<p>3. Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyng Catherine Hughes i gysylltu ag A.Polkey i drefnu cyfarfod i drafod datblygu'r ardd dros y misoedd nesaf. <i>Cllr Catherine Hughes to contact A.Polkey to arrange a meeting to discuss developing the garden over the coming months.</i> 	Cyng/Cllr Catherine Hughes
16.	<p>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES</p> <p>Ebyst wrth Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. <i>Emails from One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <p>Penderfynwyd adnewyddu'r aelodaeth gydag Un Llais Cymru ar gyfer 2025/26. <i>It was decided to renew the membership with One Voice Wales for 2025/26.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Rhian Jones Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Meirian Morgan</p>	
17.	<p>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</p> <p>17.1 – Cynllun Heddlu a Throseddu 2025 – 2029 / <i>Police and Crime Plan 2025 – 2029</i></p> <p>17.2 – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar - Gydabyddiaeth Ariannol 2025 i 2026 / <i>Independent Remuneration Panel for Wales - Annual Report 2025 to 2026</i></p> <p>17.3 – Perchnogaeth Waun Maenllwyd a CBF: Nodiadau Cyfarfod, 10fed Hydref – Dilyniant / <i>Waun Maenllwyd Ownership and CBF: Meeting Notes, 10th October - Follow Up</i></p> <p>17.4 – Argymhellion BT i waredu Ffonau Talu yng Ngheredigion / <i>Ceredigion Payphone removal proposal/s</i> Clerc i ymateb yn datgan bod y Cyngor Tref am fabwysiadu'r Ffon ar y Sgwâr. <i>Clerk to respond stating that the Town Council would like to adopt the Payphone on the Square.</i></p> <p>17.5 – Penderfyniadau Terfynol Arolwg y Senedd / <i>Senedd Review Final Determinations</i></p> <p>17.6 – Cylchlythyr Aelodau CiG Mawrth 2025 / <i>WaW Members' Newsletter March 2025</i></p> <p>17.7 – Cymorth ariannol / <i>Financial Assistance</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> - Apêl Cyngor Cymuned SSAFA Cymru 2025 / <i>SSAFA Wales Community Council appeal 2025</i> - Apêl Fawr Daffodil Marie Curie / <i>Marie Curie's Great Daffodil Appeal</i> 	
18.	<p>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</p> <p>18.1 – Blwch Defib – Mart Tregaron – M.Gower, GIG wedi bod allan ar y safle gyda'r Cyng Arwel Jones ac wedi cynnig blwch newydd ar gyfer y Defib. Yr unig gost ar y Cyngor Tref fydd datgysylltu / ailgysylltu'r trydan. Pawb yn gytun. Clerc i gysylltu â M.Gower.</p>	Clerc / Clerk

Defib box – Tregaron Mart – M.Gower, NHS has been out on site with Cllr Arwel Jones and has offered a new box for the Defib. The only cost on the Town Council will be to disconnect / re-connect the electrics. All in agreement. Clerk to contact M.Gower.

18.2 –

Cyng / Cllr Arwel Jones

Mae symud rhai o'r Byrddau Hanes i wahanol leoliadau ar y gweill.

The moving some of the History Boards to different locations are in progress.

18.3 –

Cyng / Cllr Catherine Hughes

Mae Is-bwyllgor Lleol yr Hen Ysgol Uwchradd wedi cyfarfod ac mae tua £180,000 yn y gronfa. Penderfynodd yr Is-bwyllgor gynnig i Bwyllgor Elusennol yr Awdurdod fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu 'Astro Turf' ar dir yr ysgol.

The Local Sub-Committee of the Old Secondary School have met and there is approximately £180,000 in the pot. The Sub-Committee decided to propose to the Authority Charity Committee that the money be used to develop an Astro Turf at the school grounds.

18.4 –

Cyng / Cllr Rhian Jones

Ar hyn o bryd mae Hamdden Caron yn talu am y goleuadau stryd yn yr Ystad Ddiwydiannol gan fod y prif switsh cylched o fewn y Ganolfan Hamdden. Cyng Ifan Davies i siarad gyda CSC i drafod ymhellach ac adrodd yn ôl i'r Cyng Rhian Jones ar y ffordd ymlaen.

Mae Hamdden Caron yn gofyn a oes unrhyw hen feinciau y gellir eu rhoi iddynt i'w defnyddio y tu allan i'r Ganolfan Hamdden. Cafwyd trafodaeth ac mae rhai hen feinciau yn y sied y gallant eu cael.

Currently Hamdden Caron are paying for the street lights in the Industrial Estate as the main circuit switch is within the Leisure Centre. Cllr Ifan Davies to speak to CCC to discuss further and report back to Cllr Rhian Jones on a way forward.

Hamdden Caron are asking if there are any old benches that can be donated to them to use outside the Leisure Centre. A discussion was held and there are some old benches in the shed that they can have.

18.5 –

Cyng / Cllr Dafydd Richards

Tyllau yn y ffordd yn y lleoliadau canlynol – Maesyrawel / Doldre / Heol yr Orsaf / Pwllswyddog - mae cyflwr y ffyrdd yn Nhregaron mewn cyflwr gwael. Cyng Ifan Davies i adrodd i CSC i weld beth ellir ei wneud.

Potholes in the following locations – Maesyrawel / Doldre / Station Road / Pwllswyddog the condition of the roads in Tregaron are in a poor state. Cllr Ifan Davies to report to CCC and see what can be done.

18.6 –

Cyng / Cllr Gwion James

Yn teimlo bod angen glanhau'r dref yn dda - i'w drefnu dros y Gwanwyn.

Feels like the town needs a good clean up – to be arranged over the Spring.

18.7 –

	<p>Cyng / <i>Cllr</i> Arwel Jones Gwahoddiad i'r Cadeirydd, Cyng Catherine Hughes i agor lawnt y Clwb Bowls ar Ddydd Sadwrn Ebrill 19eg am 4pm. <i>Invitation to the Chair, Cllr Catherine Hughes to open the green at the Bowls Club on Saturday April 19th at 4pm.</i></p> <p>18.8 – Sesiwn casglu sbwriel i'w drefnu ar ddydd Sadwrn 12 Ebrill am 11am ar Sgwâr Tregaron. Clerc i hysbysebu. <i>Litter pick session to be arranged on Saturday 12th April at 11am on Tregaron Square. Clerk to advertise.</i></p> <p>18.9 – Ffynnon Garon - angen clirio chwyn, clirio llwybrau ayyb - trefnu sesiwn yn y Gwanwyn. <i>Ffynnon Garon - it needs to be cleared of weeds, paths cleared etc - arrange a session in the Spring.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>19.</p>	<p>Terfynwyd y cyfarfod / <i>Meeting was closed</i> Gan fod y trydydd Llun yn Ebrill yn Llun y Pasg penderfynwyd cyfarfod ar yr ail nos Lun yn lle ar Ebrill 14eg am 7.30pm. <i>The third Monday in April falls on Easter Monday. It was decided to meet on the second Monday instead on April 14th at 7.30pm.</i></p>	